NODIADAU YMGYNGHOROL PROSESU CEISIADAU CYNLLUNIO

DARPERIR Y NODIADAU HYN I'CH HELPU I DDEALL SUT MAE EICH CAIS CYNLLUNIO'N CAELEI BROSESU (1-12) A PHWYSLEISIANT BWYSIGRWYDD Y PENDERFYNIAD CYNLLUNIO YN Y PENDRAW (13-15)

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Adran Datblygu

NODIADAU YMGYNGHOROL

1. Mae eich cais wedi ei gofrestru ac mae'r holl ddogfennau a gyflwynwyd gydag ef ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn fy swyddfa neu ar dudalen we'r Adran Gynllunio sydd ar www.bridgend.gov.uk yn ystod oriau gwaith arferol.

2. Os oes gennych gymdogion, mae'n debygol y byddaf yn ysgrifennu atynt i'w hysbysu o'ch cynnig, eu gwahodd I weld eich cyflwyniadau a gwneud sylwadau os dymunant. Gallant brynu copiau o'r dogfennau a gyflwynasoch I'w galluogi I ystyried sut fydd eich cynnig yn effeithio arnynt.

3. Yn dibynnu ar nature y cynnig, mae'n bosibl y byddaf yn cysylltu ag unigolion neu gyrff eraill ac yn rhoi manylion eich cais iddynt a gwahodd sylwadau ganddynt.

4. Yn dibynnu are natur eich cynnig, mae'n bosibl y byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i'ch cais drwy greu hysbysiad safle a / neu hysbysiad ar gyfer y wasg.

5. Ysgrifennaf at y cyngor tref neu gymuned perthnasol I gael eu barn. Ar adegau, bydd barn y cynghorau hyn yn cael ei hadrodd yn y wasg neu'n cael ei rhyddhau cyn i'r Awdurdod hwn ystyried eich cynnig. Gall hyn fod yn ddryslyd ar adegau ond sicrhewch eich bod yn aros am yr hysbysiad a benderfyniad gan y Cyngor hwn.

6. Mae eich cais yn ymwneud â gweithdrefnau cynllunio yn unig ac mae'n bosibl y bydd angen i chi gael cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu hefyd. Peidiwch â dechrau ar y gwaith hyd nes i chi gael pob cymeradwyaeth sydd eu hangen arnoch.

7. Bydd y swyddog achos yn archwilio'r safle ac yn debygol angen mynediad i'r safle. Os oes gennych unrhyw anhawster gyda swyddog yn ymweld y safle heb unrhyw gymorth, dylwch gysylltu gyda'r swyddog perthnasol yn syth.

8. Byddaf yn penderfynu a ddylwn ddefnyddio fy mhwerau dirprwyedig i gyhoeddi penderfyniad neu adrodd ar y cyflwyniadau i'r Pwyllgor rheoli Datblygu. Bydd fy adroddiad i'r pwyllgor yn cynnwys unrhyw sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd a'm argymhelliad. Gall y pwyllgor benderfynu archwilio'r safle cyn dod i benderfyniad ar eich cais.

9. Gallwch weld copi o'm a droddiad i'r pwyllgor yn fy swyddfa neu ar safle we'r Cyngor 3 diwrnod cyn dyddiad cyfarfod y pwyllgor. Medrir gweld unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ynglun ar cais yn swyddfeudd dinesig y cyngor.

10. 5 diwrnod ar ôl i'r pwyllgor ystyried eich cais, byddaf yn ymdrechu i anfon hysbysiad o benderfyniad atoch.

11. Ar ôl ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r penderfyniad, byddaf yn ysgrifennu at unrhyw drigolion lleol sydd wedi gwneud sylwadau i'w hysbysu o'r penderfyniad.

12. Darllenwch yr hysbysiad o benderfyniad yn ofalus – mae'n ddogfen bwysig iawn.

13. Os rhoddwyd caniatâd cynllunio yn amodol ar amodau, sicrhewch eich bod yn ymdrin â'r amodau hyn neu gellid cychwyn achos yn eich erbyn. Os methwch I gydymffurfio ag amodau cyn-dechrau, gallech ddiddymu eich caniatâd cynllunio, fellymae'n hanfodol I chi ymdrin â'r amodau hyn cyn i unrhyw ddatblygiad gychwyn are y safle.

14. Os rhoddwyd caniatâd cynllunio, sicrhewch eich bod yn cyflawni eich datblygiad yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd neu bydd modd cychwyn achbos yn eich erbyn.

15. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw aelod o'r cyhoedd, naill ai'n uniongyrchol gan y Cyngor neu'n anuniongyrchol oherwydd eu tarddiad ethnig neu genedl.